DIOGELWCH YSBRYDOL MEWN BYD LLAWN PERYGLON

Nodyn i'r siaradwr:
Ymhlith y peryglon niferus sydd o'n cwmpas heddiw y bygythiad mwyaf difrifol yw trychineb ysbrydol - helpwch y gynulleidfa i ddeall hyn. Pwysleisiwch fod angen inni ddibynnu'n llwyr ar Jehofah am amddiffyn. Drwy osgoi maglau satanaidd byddwn yn sicrhau ein hysbrydolrwydd a chanfod Jehofah yn noddfa inni

RHAGFYNEGODD Y BEIBL Y BYDDAI PERYGLON I GRISTNOGION HEDDIW YN AMLHAU (3 mun.)

Mae peryglon corfforol ar gynnydd, - ond mae pawb yn wynebu'r rhain (Math 24:7, 8)

Rhaid i Gristnogion wynebu perygl gwaeth - perygl cyfrwys trychineb ysbrydol (Heb 10:38, 39)

Mae trychineb ysbrydol yn fwy difrifol oherwydd gall olygu dinistr dragwyddol (Math 10:28)

Dyma beth ydi perygl go iawn, sydd yma 'nawr; mae rhai eisoes wedi ildio iddo (*yb*80 10-11)

Ble mae noddfa ac amddiffyn i'w cael ?

MAE SALM 91 YN EIN SICRHAU NI FOD DIOGELWCH YSBRYDOL I'W GAEL YMHLITH PERYGLON CYNYDDOL (7 mun.)

Mae Jehofah yn rhoi rhybudd am y peryglon ac mae e'n darparu noddfa ac amddiffyn

Yn Salm 91 mae'r peryglon yn cael eu cyflwyno mewn iaith symbolaidd

[Gwahoddwch y gynulleidfa i agor eu Beiblau i Salm 91, ac i sylwi ar ymadroddion fel "bagl heliwr," "pla difaol," "pla sy'n tramwyo yn y tywyllwch," "saeth yn hedfan yn y dydd" yn adnodau 3, 5, 6, 10, 12, 13]

Er mwyn osgoi'r peryglon hyn, rhaid gwybod beth maen 'nhw'n eu cynrychioli

'Does dim rhaid inni ofni gan fod addewid y cawn ein hamddiffyn [Darllen Salm 91:1-3] (*w*01 11/15 15-16)

Mae Satan, yr "heliwr," yn ein hystyried ni'n ysglyfaeth iddo (Jer 5:26; *it*-1 316)

Mae e'n cuddio'i faglau yn y lleoedd mwyaf annisgwyl

Fel mae heliwr yn defnyddio bwyd i arwain yr ysglyfaeth i'r fagl, mae Satan yn defnyddio maglau megis chwantau cnawdol i ddenu bodau dynol

Rhaid gwneud Jehofah yn noddfa i ni, rhaid ymddiried ynddo, a pheidio â meiddio gwneud dim yn ein nerth ein hunain

Fel cywion bach, mae angen inni gysgodi dan adain amddiffynnol Jehofah er mwyn osgoi cael ein denu gan Satan ac er mwyn sicrhau ein diogelwch ysbrydol [Darllen adnod 4] (*w*01 11/15 17)

Drwy gadw'n deyrngar i Dduw a gwneud ei ewyllys, cawn fudd ei amddiffyn (Salm 15:1, 2; 121:5-8; 1Ioan 2: 15-17)

OSGOWCH FAGL SATAN (30 mun.)

Magl Satan yw ei gyfundrefn weladwy ddrygionus (1Ioan 5:19)

Er mwyn dal ei ysglyfaeth defnyddia Satan "abwyd"—deniadau hunanol y byd, pethau fel cyfoeth, enwogrwydd, amlygrwydd

Mae trefn Satan yn hyrwyddo agwedd di-dduw drwy argymell pwyslais ar ormodaeth anllad a blysio am bleserau cnawdol, megis cyffuriau, alcohol, a rhyw

Mae Jehofah yn ein helpu i ymatal rhag ildio i faglau Satan (2Cor 2:11; Eff 6:11)

Perygl all godi i fygwth ein diogelwch ysbrydol yw'r "pla difaol"(Salm 91:3)

Afiechyd marwol sy'n lledu'n gyflym yw pla

Symbol yw "pla" yn y cyswllt hwn; mae'r salmydd yn ei gysylltu â magl heliwr

Mae'n ymddangos mai cenedlaetholdeb yw'r "pla", nodwedd sy'n achosi rhaniadau yn y byd hwn dan law Satan (1Ioan 5:19)

Arnold Toynbee: "Ers diwedd yr Ail Ryfel Byd yn sgîl cenedlaetholdeb mae nifer gwladwriaethau annibynnol sofran lleol wedi dyblu . . . Gellir mentro y bydd y duedd hon i hollti ac ymrannu ymhlith dynoliaeth yn cynyddu yn y dyfodol." (*w*01 11/15 16)

Mae arweinwyr byd wedi dwysáu'r anghydfod rhaniadol sy'n achosi cynnen rhwng gwledydd

Mae hyn yn "ddifaol" oherwydd y canlyniad yw rhagfarnau cenedlaethol, trethi llethol, a rhyfeloedd (*w*01 11/15 16; *w*79 11/1 6-7)

Beth all ein hamddiffyn ni rhag y "pla" hwn?

"Byw yn lloches y Goruchaf" (Salm 91:1) ("yn nirgelwch y Goruchaf" *BCL)*

Mae'n 'ddirgelwch' i'r byd; ni all y llygad dynol ei weld

Mae'r teitl "Goruchaf" yn rhoi syniad inni ble mae'r lle hwn

Cyfeirio mae "Goruchaf" at safle Jehofah yn Benarglwydd y Bydysawd

Man diogelwch ysbrydol a geir yn y safiad a gymer y rhai sydd ar ochr Jehofah ac felly mae'n 'ddirgelwch'

Rhaid cadw'n gadarn niwtral i gynnal y safle hwn (Ioan 17:16)

Rhaid ymochel rhag cael ein denu i ochri gydag unrhyw blaid wleidyddol

Mae diddanwch i'w gael o wybod y bydd Jehofah yn ein cysgodi dan ei adenydd ac yn ein hamddiffyn (Ruth 2:12; Salm 5:11)

Drwy drigo ym man amddiffyn ffigyrol Jehofah, ni fyddwn yn ofni unrhyw gynllwynio i'n herbyn [Darllen adnodau 5, 6]

Ni fydd gweithredoedd anfad eraill yn achosi inni grynu gan ofn (*w*01 11/15 17)

Ni fyddwn yn ofni'r "saeth yn hedfan yn y dydd," megis ymosodiadau geiriol, gau gyhuddiadau, propaganda celwyddog, enllib/athrod maleisus, bygythiadau treisgar, achosion cyfreithiol (*w*74 12/15 754-5)

Medr Jehofah ein hamddiffyn rhag popeth o'r fath (Eseia 54:17)

Mae'r "pla" yn medru achosi cyflwr marwol yn y galon a'r meddwl (1Tim 4:1, 2; 6:4, 5)

Mae byd y ddynoliaeth mewn "tywyllwch" o safbwynt Duw a'i fwriad

Drwy aros yn lloches Duw, daw goleuni ysbrydol i ran Cristnogion a 'does arnyn' nhw ddim ofn y "tywyllwch"

Mae'r byd o'r farn ei fod yn mwynhau goleuedigaeth a disgleirdeb ei "ganol dydd," sef ei ddeallaeth a'i olygwedd materol

Mae'r fath bropagandeiddio yn difetha'n hysbrydolrwydd ni (1Tim 6:20, 21)

Caiff y sawl sy'n trigo 'yng nghysgod yr Hollalluog,' a chael ei gysgodi rhag disgleirder camarweiniol y byd, weld, ac yntau'n ddiogel, miloedd yn syrthio'n ysbrydol farw [Darllen adnodau 7, 8]

"Ni chyffyrddir â thi" yw'r addewid sicr i'r rhai uniawn

A ninnau'n cael ein hamddiffyn, cawn weld y farn a ddaw ar y drygionus heb iddi'n cyffwrdd ni (Gal 6:7)

Er bod diogelwch y byd yn dadfeilio, bydd y rhai sy'n llochesu yn Jehofah yn profi sicrwydd y geiriau "ni ddigwydd niwed i ti" [Darllen adnodau 9, 10]

Dyma'r "niwed" 'rydym eisoes wedi gweld ei ddisgrifio yn y salm hon

Ni fedr hyd yn oed trychinebau "naturiol" chwalu'n ffydd a'n diogelwch ysbrydol (*w*01 11/15 19)

"Ni ddaw pla ('hyd yn oed,' *NW*) yn agos i'th babell," sylwch

Bydd hyn yn wir amdanom ni os cadwn ar wahân i'r byd a'i anfoesoldeb, ei fateroliaeth, a'i gau grefydd

Mae Satan yn dal llawer ym magl anfoesoldeb

Ers dyddiau Noa mae'r cythreuliaid wedi bod â'u bryd ar bethau'n ymwneud â rhyw (Gen 6:4)

Maen' nhw'n ymhyfrydu cael hybu anfoesoldeb trwy gyfrwng y cyfryngau

Mor hawdd yw cael ein denu i fagl anfoesoldeb—'does dim ond rhaid meddwl am Ddafydd (2Sam 11:2-4)

Anfoesoldeb sy'n gyfrifol am y mwyafrif o ddiarddeliadau

Y ffordd i osgoi'r fagl yma yw trwy gadarnhau ein hysbrydolrwydd

JEHOFAH, EIN LLOCHES SICR A'N GWAREDIGAETH (5 mun.)

Mae'r gelyn mawr, Satan, yn ddibaid yn ceisio baglu gweision Duw a difa'u hysbrydolrwydd

Mae'r angylion dan orchymyn i warchod gweision Duw [Darllen adnodau 11, 12]

Cânt eu gwarchod rhag baglu'n ysbrydol a chael eu denu gan gyfundrefnau dyn a'u syniadau ar gyfer gwaredigaeth, a rhag addoli'r "bwystfil" a'i "ddelw" (Dat 13:1-18)

Ni chaiff 'cerrig,' megis gwahardd y gwaith pregethu ein baglu ni nac achosi inni golli'r ffafr dwyfol

Fel "llew ifanc" gall Satan ymosod yn uniongyrchol arnom drwy gyfrwng asiantau bydol nerthol neu fe all ein taro o'i guddfan megis "sarff" gudd [Darllen adnod 13]

Mae'n bwysig sylweddoli mai Satan yw'r ffynhonnell, a'i fwriad yw ein llyncu (1Pedr 5:8)

Os cadwn yn deyrngar i Jehofah a chadw uniondeb, bydd yn sicrhau modd inni ddianc a man lle cawn noddfa [Darllen adnodau 14-16]

Gan alw ar yr enw dwyfol, fe gawn ein hachub (Rhuf 10:11-13; *w*01 11/15 20)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at amser penodol pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na'u trafod)

© 2003 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania Cedwir pob hawl